The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

# Nodyn cyfarfod

| | |
|---|---|
| **Enw'r prosiect** | **Fferm Solar Maen Hir** |
| **Cyfeirnod ffeil** | **EN010156** |
| **Statws** | **Terfynol** |
| **Awdur** | **Yr Arolygiaeth Gynllunio** |
| **Dyddiad** | **4 Hydref 2023** |
| **Cyfarfod gyda** | **Lightsource bp** |
| **Lleoliad** | **Microsoft Teams** |
| **Amcanion y cyfarfod** | **Cyfarfod Cyn-Gwmpasu** |
| **Cylchrediad** | Pawb a oedd yn bresennol/ cysylltiadau ychwanegol i rannu'r nodyn cyfarfod |

## Crynodeb o'r pwyntiau allweddol a drafodwyd, a'r cyngor a roddwyd

Cynghorodd yr Arolygiaeth Gynllunio (yr Arolygiaeth) y byddai nodyn o'r cyfarfod yn cael ei wneud a'i gyhoeddi ar ei gwefan yn unol ag adran 51 Deddf Cynllunio 2008. Ni fyddai unrhyw gyngor a roddid o dan adran 51 yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol y gallai'r ymgeiswyr (neu eraill) ddibynnu arno.

## Y Datblygiad Arfaethedig

Rhoddodd yr Ymgeisydd drosolwg o'r Datblygiad Arfaethedig, gan gynnwys yr ardaloedd datblygu, uwchgynllun o'r cysyniad a'r graddfeydd amser ar gyfer y camau adeiladu, gweithredu, a datgomisiynu disgwyliedig. Mae prif elfennau'r datblygiad arfaethedig yr un fath â'r rhai hynny a drafodwyd yn y Cyfarfod Cychwynnol (to be linked) ym mis Mehefin 2023.

Disgwylir i gam gweithredol y Datblygiad Arfaethedig fod hyd at 60 mlynedd a disgwylir i'r cam datgomisiynu gymryd oddeutu 6 i 12 mis.

## Strategaeth Gydsynio

Rhoddodd yr Ymgeisydd drosolwg o'r strategaeth gydsynio, gan gynnwys y Datblygiad Cysylltiedig.

## Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (EIA)

Rhoddodd yr Ymgeisydd drosolwg cyd-destunol o dirweddau dynodedig, olion archaeolegol claddedig, coetiroedd a'r seilwaith ynni gweladwy. Siaradodd hefyd am yr asesiad amgylcheddol o Lyn Alaw, yn ogystal â'r rhwydweithiau ar gyfer Llwybrau Beicio Cenedlaethol, Hawliau Tramwy a mannau gwyrdd naturiol o fewn ac o amgylch Ynys Môn.

Mae'r Ymgeisydd yn bwriadu cyflwyno ei Adroddiad Cwmpasu EIA yn ystod yr wythnos yn dechrau 30 Hydref 2023. Bydd ffeil siâp GIS yn cael ei chyflenwi bythefnos cyn dyddiad cyflwyno'r Adroddiad Cwmpasu. Bydd hyn yn dangos yr ardaloedd datblygu ar gyfer yr araeau solar a'r coridorau ar gyfer llwybrau ceblau i gysylltu â'r grid, yn ogystal ag ardaloedd mynediad posibl.

Bwriedir i Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol (PEIR) yr Ymgeisydd gael ei lunio erbyn ail chwarter 2024, a ddilynir gan y Datganiad Amgylcheddol (ES) a chyflwyno'r cais ar gyfer Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) ym mhedwerydd chwarter 2024. Holodd yr Arolygiaeth b'un a yw'r Ymgeisydd yn bwriadu cynnal adolygiad o ddogfennau drafft; cadarnhaodd yr Ymgeisydd y bydd yn ystyried y mater hwn ac yn rhoi diweddariad mewn cyfarfodydd i ddod.

Rhoddodd yr Ymgeisydd drosolwg o'i arolygon amgylcheddol presennol a'r rhai sydd i ddod. Gofynnodd yr Arolygiaeth i'r Ymgeisydd beth fyddai ei ymagwedd at ddiffinio'r prosiectau o fewn yr Asesiad o Effeithiau Cronnol ar gyfer yr EIA. Mae'r Ymgeisydd wrthi ar hyn o bryd yn llunio rhestr hir o brosiectau i'w cynnwys yn yr Asesiad o Effeithiau Cronnol gyda'r bwriad o'i rhannu gyda'r cynghorau lleol perthnasol ac adolygu'r rhestr wrth i'r prosiect ddatblygu.

## Ymgysylltu â rhanddeiliaid

Rhoddodd yr Ymgeisydd ddiweddariad ar ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r cynnydd a wnaed hyd yma. Cynhaliwyd cyfarfodydd â Chyngor Sir Ynys Môn yn ystod yr haf 2023 ac mae cyfarfodydd ychwanegol wedi'u cynllunio.

Mae'r Ymgeisydd yn bwriadu cynnal digwyddiadau diweddaru ynglŷn â'r prosiect i ymgysylltu â chymunedau lleol, er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw gwestiynau neu bryderon yn uniongyrchol. Bydd yr ymgynghoriad statudol yn un hybrid; cymysgedd o ddigwyddiadau rhithwir a ffisegol. Diben hyn yw ehangu gorwel yr ymgynghoriad â phobl sydd ar wyliau ac ati. Mae hefyd yn bwriadu cyhoeddi cylchlythyrau cymunedol.

## Unrhyw fater arall

Gofynnodd yr Ymgeisydd i wefan y prosiect gael ei chyhoeddi pan gyflwynir y Cais Cwmpasu EIA. Yn ogystal, cyfeiriodd yr Arolygiaeth yr Ymgeisydd at Nodyn Cyngor 7 yr Arolygiaeth Gynllunio i gael rhagor o wybodaeth am gwmpasu, gan gynnwys y fformatau ar gyfer cyflwyno'r ffeil siâp GIS a'r cais cwmpasu.

Gofynnodd yr Arolygiaeth b'un a oedd yr Ymgeisydd wedi bwriadu cynnal adolygiad dylunio gan Gomisiwn Dylunio Cymru, neu a yw'n bwriadu gwneud hynny. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd fod hyn yn debygol o gael ei wneud, maes o law.

**Atodiad A [to be removed before publishing]**

## Y rhai a oedd yn bresennol yn y cyfarfod

| Sefydliad | Enw | Rôl |
|---|---|---|
| DWD | Leo Cunningham-Baily | Aelod Cyswllt |
| Counter Context | Beth Motley | Rhanddeiliaid a chyfathrebu |
| LDA Design | Peta Donkin | Cyfarwyddwr EIA |
| Lightsource bp | Katy McGuinness | Pennaeth Cynllunio Amgylcheddol (Gogledd Ewrop) |
| Lightsource bp | Chris Atkinson | Prif Gynllunydd Amgylcheddol |
| DWD | Anna Woodward | Uwch Gynllunydd |
| LDA Design | Catrin Jones | Cyfarwyddwr |
| Yr Arolygiaeth Gynllunio (PINS) | Claire Deery | Uwch Gynghorydd EIA |
| PINS | Hefin Jones | Rheolwr Gweithrediadau (Ynni) |
| PINS | Jake Stephens | Rheolwr Achos |
| PINS | Spencer Barrowman | Swyddog Achos |